

Cofnodion Grŵp Gweithredu Lleol Gwynedd - LEADER.

1.2.2018

Coed Y Brenin, Dolgellau

Yn Bresennol:

Cynrychiolaeth o'r Sector Fenter:		
Dafydd Watts	(DW)	Severn Wye Energy
Anwen Jones	(AP)	
Gwennan Williams	(GW)	Bwyty Lleu
Alun Wyn Evans	(AWE)	NFU/FUW
Cynrychiolaeth o'r Sector Gwirfoddol		
Craig ab Iago	(CI)	Cadeirydd LAG - Dyffryn Nantlle 2020
Arwel Jones	(AJ)	Partneriaeth Llyn
David Ingham	(DI)	DIY Industries Cyf
Cynrychiolaeth o'r Sector Cyhoeddus		
O G Thomas	(OG)	Un Llais Cymru
Helen Pye	(HP)	Parc Cenedlaethol Eryri
Dr Einir Young	(EY)	Prifysgol Bangor
Dylan Griffiths		Cyngor Gwynedd
Cynrychiolaeth o Fenter Môn		
Dafydd Gruffydd	(DG)	
Llywelyn Rhys	(LIRh)	
Eleth Peate	(EP)	
Aaron Warren	(AW)	
Rhian Hughes	(RH)	
Rachel Roberts	(RR)	
Katie Hughes-Ellis	(KHE)	



Pwynt	Manylion	Gweithred
Cyfarfod Grŵp Gweithredu Lleol		
1.	Cafodd croeso ei ymestyn i bawb i'r cyfarfod gan Alun Evans	
2.	Derbyniwyd ymddiheuriadau gan 8 aelod trwy law RR. <ul style="list-style-type: none"> • Dr Einir Young - Prifysgol Bangor • Aled Jones-Griffith – Grŵp Llandrillo Menai • Delyth Vaughan Rowlands – Mantell Gwynedd • Bob Lowe – Plas Heli Cyf • Menna Jones – Antur Waunfawr • Sian Elen Tomos – GISDA • Ceri Cunnington – GISDA • Ioan Thomas – Cyngor Gwynedd 	
3.	<u>Datganiadau o Ddiddordeb</u> Nid oedd unrhyw Ddatganiadau o Ddiddordeb.	
4.	<u>Cofnodion Cyfarfod 4/10/2017</u> Derbyniwyd cofnodion y cyfarfod fel rhai cywir. Dim materion wedi codi.	
5.	<u>Adroddiad Ariannol</u> Eglurodd RR bod AGW yn y gorffennol wedi cyflwyno y ffigyrau yn chwarterol ond heddiw wedi cyflwyno ffigyrau hyd at ddiwedd y cynllun sef dros y dair mlynedd nesaf (diwedd 2021). Mae yna 2.5 miliwn l'w wario yng Ngwynedd gyda gwariant o £609,000 wedi'i weithredu, sydd yn golygu ein bod wedi bod yn tanwario hyd yn hyn. Yr oedd ceisiadau y diwrnod yn dod i £422,505 gyda arian cyfatebol o £100,600 (mae'r swm yma yn gynnwysiedig mewn prosiectau blaenorol). Aeth RR ymlaen i egluro fod yna felly £500,000 angen l'w wario yn flynyddol dros y dair mlynedd nesaf a £125,000 yn chwarterol. Eglurodd RR er ein bod wedi clustnodi swmiau mawr o arian, mae'n angen gwario yn ogystal â gweithredu ar y prosiectau. Hefyd, mae'n bosib i rai brosiectau tan wario ac felly bydd yr arian ar ôl yn dychwelyd nôl i'r pot. Yr oedd 12 cais angen eu cymeradwyo gwerth £422,505 gyda cyfraniad gan AGW o £288,760. Mae 4 o'r prosiectau yn brosiectau cydweithredol a chyda £33,000 yn dod o siroedd eraill	



	<p><u>5k ychwanegol I potyn ymchwil l’r 5 thema.</u></p> <p>Yn y gorffennol mae’r aelodau wedi cymeradwyo £5000 ychwanegol I potyn ymchwil l’r 5 thema. Gofynnodd RR am yr un swm eto. Mae’r arian yma yn mynd tuag at arbenigwr I edrych ar gais yn ddrylyw cyn iddo gael ei gyflwyno fel cais llawn.</p> <p>Cytunodd yr aelodau I hyn barhau.</p> <p>Gofynnodd HP os oedd yna themau lle rydym yn cael trafferth gwario ohono. Cadarnhaodd RR fod yna fwy o arian ar ôl yn Thema 2 (Hwyluso datblygiad cyn-fasnachol, partneriaethau busnes a chadwyni cyflenwi byr). Dywedodd DG fod y Llywodraeth yn gadael i’n aelodau GGL blaenoriaethu ar y themau.</p>	
	<p><u>Diweddaraid – prosiectau cyfredol:</u></p> <p><u>Amser I Fentro</u></p> <ul style="list-style-type: none"> • Rhoddodd RH ddiweddariad ar brosiect Amser I Fentro. Derbynywyd 5 cais yn wreiddiol, gyda 3 yn llwyddiannus. Cafwyd cefnogaeth gan Ian Nellist, David Ingham, Sian Tomos ac Arwel Jones I wyntyllu y ceisiadau. • Y cyntaf yw Eryl Price Williams sydd yn gweithio I Cyngor Gwynedd fel Cymhorthydd Gweinyddol. <ul style="list-style-type: none"> ○ Mae Eryl gyda diddordeb mewn crefftau ac’ upcyclo’ ers rhai blynyddoedd ac mae hi eisiai troi hyn yn fusnes drwy ddarparu gweithdai a gweithgareddau ar gyfer plant a phobl o bob oed. ○ Teimlai Eryl bod gweithdai o’u math yn gallu helpu rhai ffocws positif I rhai sydd yn diodde gyda problemau iechyd meddwl. Mae clybiau ieuencid a chanolfannau dydd henoed yn cau lawr ac felly mae yna gap mawr I ddysgu sgiliau newydd. • Raymond Jones – 	

	<ul style="list-style-type: none"> ○ Mae Raymond yn gweithio I Cyngor Gwynedd ers 25 mlynedd fel rheolwr ar brosiectau corfforthaethol. Mae Raymond eisiau cychwyn busnes Pizza symudol. Mae’r diwydiant Pizza werth dros £2 biliwn ym Mhrydain ac yn cynyddu yn flynyddol. Mae pobl o bob oed yn mwynhau pizza ac mae’r farchnad yn un enag ac sefydlog. ○ Mae Raymod isho buddsoddi mewn offer sydd yn bobty tân pren symudol ac wedi’l leoli mewn gazebo. ○ Mae o wedi ymchwilio mewn l’r maes ac wedi trafod ymhellach gyda perchnogion carafannau I rannu ei syniad. Mae nifer ohonyn nhw wedi datgan diddordeb I leoli ei stondin ar ddyddiau penodol yn yr Haf. Mi fydd o hefyd yn cynnig y gwasanaeth mewn marchnadoedd lleol, partion a phriodasau. <ul style="list-style-type: none"> ● Jacqui Parry <ul style="list-style-type: none"> ○ Athrawes cynorthwyl ydy Jacqui yn Ysgol Glan Y Môr Pwllheli ac ei syniad hi ydy paratoi pwдинаu moethus mewn potiau jam. Mae hithau hefyd wedi gwneud ymholiadau yn lleol I werthu mewn siopau ym Mhwllheli a derbyn archebion gan cwsmeriaid hefyd. <ul style="list-style-type: none"> ● Lois Jones <ul style="list-style-type: none"> ○ Cyn l’r dyddiad gau ar y ceisiadau ym mis Tachwedd, cafwyd ymweliad yn y swyddfa gan Tesni Jones ar ran ei mherch Lois sydd yn bymtheg oed ac yn mynychu Ysgol y Moelwyn. Syniad busnes Lois ydy trecio defaid. Mae Lois yn byw ar fferm yn Nhrawsfynydd gyda’l theulu sydd yn ffermio defaid mynydd. Mae hi hefyd yn ei amser sbar yn dangos defaid brid arbennig o’r Iseldiroedd ac wedi bod yn llwyddiannus iawn mewn sioeau. ○ Gwelodd Lois eitem ar raglan ‘Coast & Country’, mae yna hefyd fferm yn y Brecon Beacons sydd yn llwyddiannus iawn gyda’r fenter. Credai Lois a’l Mham fod yna gap yn y farchnad I gynnig hyn I ymwelwyr yn Eryri. Rhywbeth gwahanol ac yn incwm ychwanegol l’r fferm. ○ Bydd Lois ond yn derbyn cefnogaeth mentora busnes lle fydd y tri arall yn derbyn y mentora ac eu talu am golli diwrnod o gyflog. 	
--	--	--



	<p>Mi fydd y gwaith mentora yn cael ei ddarparu gan Caryl Lewis o gwmni Celyn. Mae'r cynllun rhedeg am 6 mis hyd at ddiwedd Gorffennaf.</p> <p><u>Cysawd Eryri</u></p> <p>Rhoddodd RR ddiweddaraid ar y cynllun yma. Mae'r artist wedi'i phenodi yn ogystal â'r lleoliadau wedi'i cadarnhau. Mae'r 4 planed cyntaf yn ardal Blaenau gyda'r planedau eraill i gyd wedi'u lledaenu ar draws y Parc Cenedlaethol. Mi fydd yr artist yn gweithio'n agos iawn gyda'r ysgolion lleol i greu y planedau. Y gobaith ydy y bydd y gweithdai yn eu lle erbyn canol Chwefror gyda'r gwaith wedi'i orffen erbyn diwedd MawrthEbrill. Bydd yna ragor o ddatblygiadau yn cael eu datgan yn y cyfarfod nesaf ym mis Ebrill.</p> <p><u>Rhodd Eryri</u></p> <p>Rhoddodd RH ddiweddariad ar Rhodd Eryri.</p> <ul style="list-style-type: none"> • Mae'r cynllun peilot yn mynd ers 18 mis erbyn hyn ac rydym gyda bron i 60 o fusnesau wedi ymuno o bob cefndir. Yn y rownd gyntaf, casglwyd dros £3000 ac mi aeth hwn ar gyfer 48 o bobl ifanc i dderbyn cymhwyster mewn Cadwraeth Ymarferol drwy law Cymdeithas Eryri. • Ar gyfer yr ail rownd penderfynwyd rhoi targed o £10,000 i'w godi mewn blwyddyn ac hyd yn hyn mae £10,400 wedi'i gasglu. • Mi fydd y swm yma yn cael ei wario ar llwybr Cwellyn tro hyn sydd yn bresennol gyda gwaith werth £40,000 arno ar ôl difrod rhai misoedd yn nôl. • Mi fydd y Parc Cenedlaethol yn cyfrannu £1 am £1 tuag at y swm, sydd yn golygu felly bod cyllid ar gael i gyfrannu tuag at hanner y gost. • Dywedodd RH bod yna ddigwyddiad yn cymryd lle ar y Nôs Lun canlynol yng Ngwesty'r Victoria yn Llanberis am 6.30. Bydd hwn yn gyfarfod/ddigwyddiad cyhoeddus lle byddem yn dathlu y llwyddiant hyd yn hyn ond hefyd yn trafod y dyfodol. • Mae Caryl Lewis o gwmni CELyn yn helpu gyda paratoi adroddiad cloi/terfynol ar gyfer y cynllun a bydd adborth o'r digwyddiad yn bwydo mewn l'r adroddiad yma. 	
--	---	--



Ceisiadau i'w Cymeradwyo		
	<p><u>AGW.065 Egni Bro</u> Datgan diddordeb – Roedd Dafydd Watts yn datgan diddordeb am y cais yma. Cyflwynodd LIRh y cais ac esbonio y bydd yn gynllun peilot i greu strategaeth ynni cymunedol yn Bro Ffestiniog. Eglurodd LIRh fydd y strategaeth yn nodi cyfleon i fentrau ynni cymunedol unigol yn yr ardal gydweithio er mwyn cyrraedd y 5 amcan canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> o Cyfrannu at wneud yr ardal yn un carbon sero o Lleihau tloedi tanwydd o Creu a diogelu swyddi yn lleol o Cryfhau'r economi leol o Gwella hyfywdra ariannol cynlluniau ynni cymunedol <p>Eglurodd LIRh bod hwn yn gais am dau asesiad sydd yn rhan o'r strategaeth.</p> <ol style="list-style-type: none"> 1. Asesiad o potensial o gynhyrchu ynni adnewyddadwy yn Mro Ffestiniog. 2. Asesiad o'r rhwydwaith cludo trydan yn Mro Ffestiniog. 3. <p>Roedd yr aelodau yn gefnogol iawn o'r cynllun. Awgrymodd EY y byddai'n defnyddiol cysylltu gyda Dr Gwen Hughes o Prifysgol Bangor sydd gyda PhD mewn Ynni cymunedol Cymreig i fod yn rhan o'r grŵp llywio. Nodwyd EY byddai hefyd yn ddefnyddiol cysylltu gyda Ynni Ogwen ac Ynni Peris i ddysgu am eu profiad nhw.</p> <p>Cymeradwyodd aelodau'r LAG y gwariant o £15,700. (Gydag arian cyfatebol o £3,600 gan Cwmni Cymunedol Bro Ffestiniog. Felly cyfanswm cost y prosiect yn £19,300)</p>	<p>Cysylltu gyda Dr Gwen Hughes o Prifysgol Bangor.</p>



	<p><u>AGW. 071 Cynlluniau Gwneud Lleoedd</u></p> <p>Eglurodd KHE fod hwn yn cais cydweithredol gyda Cyngor Gwynedd. Esboniodd KHE fod hwn yn beilot i greu gwell dealltwriaeth a dehongli o'r diwydiant llechi o fewn cymunedau dethol, yn ogystal â chreu naratif i ddweud hanes y diwydiant llechi yng Ngogledd Cymru.</p> <p>Eglurodd KHE bydd y prosiect yn cynnwys 6 cham allweddol mewn 3 ardal sef Llanberis, Tywyn Bethesda neu Blaenau Ffestiniog:</p> <ol style="list-style-type: none"> 1. Archwiliadau Trefi: 2. 'Ymwelydd Dirgel' 3. Cynllun Seiliedig ar Le 4. Ymgymryd â champau blaenoriaeth o'r Cynllun Seiliedig ar Le: 5. Hyrwyddo a gwerthuso 6. Astudiaeth dichonolrwydd cynhyrchu incwm (1 ardal) <p>Awgrymodd EY dylai manylion am arwyddion y llwybrau llechi fod yn glir ac yn hawdd i'w dilyn i arbed pobl fynd ar goll.</p> <p>Nododd HP fod gan 'Visit England' canllawiau gwych ar sut i redeg gweithdai llechi.</p> <p>Cymeradwyodd aelodau'r LAG y gwariant o £50,000. (Gydag arian cyfatebol o £30,000 gan Cyngor Gwynedd. Cyfanswm cost y prosiect yw £80,000)</p>	<p>Cysylltu gyda Visit England i gael canllawiau.</p>
	<p><u>AGW.073 Ysgol Drôns</u></p> <p>Eglurodd KHE y cais ac egluro bod y cynllun wedi datblygu ar y cyd gyda Chyngor Gwynedd. Esboniodd KHE bydd hwn yn brosiect peilot i greu Ysgol Dronau ym maes awyr Llanbedr, ar gyfer pobl ifanc 14-19 oed. Bydd y bobl ifanc yn dysgu sut i ddefnyddio dronau yn ddiogel mewn amgylchedd rheoledig o fid Ebrill tan yr haf 2018. Eglurodd DG fod hwn yn bwysig i CG er mwyn datblygu sgiliau STEM i bobl ifanc.</p>	<p>Sicrhau fod yr hyfforddiant yn cynnwys canllawiau hedfan drôns o fewn y Parc Cenedlaethol Eryri.</p>



	<p>Noddodd HP fod yn bwysig fod yr hyfforddiant yn amlygu bod gan Parc Cenedlaethol Eryri canllawiau penodol o rhan defnyddio drôns o fewn ffiniau y Parc. Awgrymodd GLLI y byddai wych hybu entrepreneuriaid yn y sector drôns. Nodwyd OG bod gan ffermwyr diddordeb defnyddio technoleg dronau. Roedd yr aelodau yn gefnogol iawn ac pawb yn cymeradwyo y cais.</p> <p>Cymeradwyodd aelodau'r LAG y gwariant o £20,000. (Gydag arian cyfatebol o £20,000 gan Gyngor Gwynedd. Felly cyfanswm cost y prosiect yn £40,000)</p>	<p>Cysylltu gyda Off the Ground TV sef cwmni o Llanberis sydd yn defnyddio drôns i ffotograffiaeth.</p>
	<p><u>AGW.072 Amgueddfa Pop-Up</u></p> <p>Eglurodd KHE fod hwn y gais yn dilyn sgwrs gyda staff AHNE i drafod potensial o synergedd rhwng y ddau gynllun. Nodwyd ANHE fod y cysyniad yr Amgueddfa pop-up fel prosiect posib o fewn strategaeth AHNE, ac yr oedd yn ategu thema 1 Arloesi. Eglurodd KHE bydd y prosiect yma yn edrych ar redeg nifer o amgueddfeydd dros dro gyda themâu gwanhaol ym Mhen Llŷn. Bydd y prosiect mewn partneriaeth ag amgueddfeydd presennol megis yr amgueddfa yn Nefyn yn ogystal â'r Ecoamgueddfa.</p> <p>Nododd KHE y bydd Arloesi yn cyflwyno cais i ANHE am £10,000 ar y 5ed o Chwefror 2018, ac yna bydd y panel yn eistedd ar y 20fed o Chwefror 2018. Eglurodd AJ ei fod yn ymwybodol fod nifer o geisiadau wedi derbyn gan ANHE ac byddai'n awgrymu dod a cais ANHE lawr ychydig gan nad oes llawer o arian yn y gronfa, er mwyn sicrhau ei fod yn cael ei gymeradwyo. Felly cytunodd yr aelodau i gymeradwyo hyd at £15,000 os oes angen lleihau cais ANHE.</p> <p>Cymeradwyodd aelodau'r LAG y gwariant hyd at £15,000. (Gydag arian cyfatebol o £5,000 gan ANHE. Felly cyfanswm cost y prosiect yn £20,000)</p>	
	<p><u>Bro Cast</u></p> <p>Cyflwynodd RR cais Bro Cast. Cais gan Cwmni Bro Ffestiniog (grwp o Mentrau Cymdeithasol wedi dod at eu gilydd) gyda'r weledigaeth o hybu'r ardal. Mae nhw eisiau peilota system darlledu ddigidol gyda cyfres o ddigwyddiadau, sianel ar y wê, radio a chyfryngau cymdeithasol. Cost y cais yw £22,500 gyda cyfraniad o £16,500 gan AGW a £6000 gan Cwmni Bro. mae o'n beilot blwyddyn gyda'r bwriad iddo sefyll ar ben ei hun wedi'r cyfnod yma. Dywedodd RR bod Cwmni Bro wedi ymweld â Radio Beca yng Ngheredigion sydd yn gwneud rhwybeth tebyg. Nododd DG fod yna sylw wedi'i wneud yn y Grwp Technol y bydd rhaid i Bro Cast fod yn ofalus gyda cynnwys a fydd yn cael ei ddarlledu, bydd bydd rhaid gosod</p>	



	<p>ffiniau. Cadarnhaodd RR y bydd yn brosiect dwyieithog fel y bydd pawb yn y gymuned yn gallu bod yn rhan ohono.</p> <p>Cymeradwyodd aelodau'r LAG y gwariant o £22,500 gyda arian cyfatebol o £6000 gan Cwmni Bro Ffestiniog).</p> <p><u>Ty Digidol</u></p> <p>Derbynwyd y cais yma gan Antur Waunfawr lle mae ganddynt ty gwyliau sydd eisiau treialu technoleg digidiol ar gyfer pobl sydd gyda anghenion gwahanol, e.e anabledau dysgu a corfforol. Yn wreiddiol, codwyd yn yr is-grwp bod angen mwy o waith I edrych mewn ar sut fath o dechnoleg sydd angen ar ei gyfer. Cafwyd cymorth gan ymgynghorwyr I gynghori ar dechnoleg addas ar gyfer y prosiect. Mae'r cais ar gyfer prynu yr eitemau gyda cyfraniad o £14,000 gan AGW a £6000 gan Antur Waunfawr.</p> <p>*Cymeradwyd y cais gan yr aelodau.*</p> <p><u>VR Dementia Go</u></p> <p>Cais a dderbynwyd gan Cyngor Gwynedd. Nôd y prosiect yw creu technoleg VR Cymraeg. Llawer o rheini sydd yn byw gyda Dementia yn ardal Gwyrfai yn Gymraeg iaith gyntaf. Bydd hyfforddiant ar gael I ofalwyr ar sut deimlad ydy o I fyw gyda'r cyflwr. Mae nhw wedi derbyn grant o £20,000 gan y Llywodraeth (Cymraeg 2050). Bydd cyfraniad AGW yn £17,080. Cyngor Gwynedd bydd yn gweithredu ar y prosiect ac mae cefnogaeth llawn wedi'i dderbyn gan Gymdeithas Alzheimer's.</p> <p>*Cymeradwyd y cais gan yr aelodau.*</p> <p><u>Marchnadoedd Cynnyrch Lleol</u></p> <p>Eglurodd DG fod yna 20% cyllid tuag at cynlluniau cydweithredol rhwng y siroedd (Môn a Chonwy).</p> <p>Daeth Jane Davies o Aroesi Môn I gyflywno dau gais, y cyntaf yw Marchnadoedd Cynnyrch Lleol. Nôd y prosiect hwn ydy cynyddu y nifer sydd yn mynychu marchnadoedd. Mi fydd yna alwad agored I weld pa farchnadoedd ym Môn a Gwynedd sydd gyda diddordeb bod yn rhan o'r cynllun. Mae marchnad Caergybi, Llangefni, Marchnad Ffermwyr Môn a Phorthmadog eisioes wedi datgan diddordeb ond mae angen mwy o Wynedd. Y bwriad yw I ddod â'r marchnadoedd gyda'i gilydd, trafod eu profiadau a gweld beth yw eu anghenion.</p>	
--	--	--



	<p>Bydd y cynllun yn derbyn cyngor arbenigol gan ‘NABMA’ (National Assoc. of British Markets Authority), trefnir gweithdai ac ymgyrch marchnata dros y 12 mis nesaf.</p> <p>Cost y prosiect yw £18,300. Cyfraniad AGW yn £9150 ac Arloesi Môn yn £9150.</p> <p>*Cymeradwyd y cais gan yr aelodau.*</p> <p><u>Gorau Gogledd Cymru</u></p> <p>Nôd y cynllun yw l hyrwyddo cynnyrch lleol yn y dair Sir yng Ngogledd Cymru. Nododd JD er fod y digwyddiadau ‘foodslam’ yn llwyddiannus iawn, mae yna ostyngiad mewn cynhyrchwyr o safon ac y ffordd mae nhw’n cael eu gweinyddu a’u marchnata yn enwedig yn y blwyddyn diwethaf. Y bwriad yw l’r cynhyrchwyr l gyd-weithio yn well gyda’l gilydd er mwyn gwella effaith economaidd. Bydd y model yn cynnwys cod ymddygiad unigryw a bydd is-grwpiau ym mhob sir. Mae’r cais hefyd yn cynnwys swydd gweinyddol ar hyd y dair sir.</p> <p>Mae’n gynllun heriol oherwydd bod pob LAG yn y siroedd eraill gyda strwytherau a ffocws gwahanol. Fodd bynnag, mae’r cais wedi’l gymerdwyo ym Môn a Chonwy. Dywedodd JD dylsai’r model fod yn un cryf wedi diwedd y peilot ac yn gynnaladwy l barhau ar gyfer y dyfodol.</p> <p>Cost y prosiect yw £30,555 gyda pob sir yn cyfrannu £10,185.</p> <p>*Cymeradwyd y cais gan yr aelodau.*</p> <p><u>Fendio Cynnyrch Lleol</u></p> <p>Derbynwyd cais gan Grŵp Defaid Godro Gogledd Cymru. Nôd y prosiect yw l brynu peiriant fendio a’l lenwi gyda cynnyrch lleol l helpu leihau y rhwystr rhwng y prynwr a’r cynhyrchwr. Bydd y peiriant yn cael ei leoli mewn gwahanol lefydd ar draws Gwynedd. Trafodwyd y cais yn fanwl yn yr is-grwp lle codwyd ambell l bryder e.e</p> <ul style="list-style-type: none"> • Pwy fuasai’n gyfrifol am gyflenwi’r peiriant? • Pwy fuasai’n gyfrifol am ei gadw’n lân? • Pwy fuasai’n hel yr arian. <p>Mae dau leoliad wedi’i dangos diddordeb l gael y peiriant dros cyfnod y peilot sef Portmeirion a Plas Heli. Mae gwaith ymchwil wedi’l wneud gan Geraint Hughes a Sian Davies sydd wedi cysylltu gyda cynhyrchwyr lleol lle mae 17 wedi dangos diddordeb l gymryd rhan. Mae’r cais yn cynnwys prynu y peiriant a thalu am gydlynnydd am 6 mis. Bydd y cydlynnydd yn</p>	
--	--	--



derbyn tecst yn nodi pa 'locer' sydd yn wag ac yna'n hysbysu'r cynhyrchwr I lenwi eu hunain.

Yr oedd pryder gyda 'State Aid' gyda'r prosiect, felly mi fydd pob cynnyrch gyda ychwanegiad o 20% ac mi fydd yr incwm ychwanegol yn mynd yn nôl I'r prosiect I help dalu am y cydlynedd am y 6 mis canlynol. Bydd y periant ym Mhlas Heli o Ebrill – Mehefin tra bydd y Gŵyl Hwyllo yno ac ym Mhortmeirion o Gorffennaf – Medi.

Cynigiodd AJ y byddai'n syniad codi tâl ar gadw ar bob gynhyrchydd (swm I'w drafod) ac eu bod yn derbyn hwn yn nôl ar ddiwedd y peilot.

Côst y prosiect yw £20,000 gyda £9000 wedi'i glustnodi ar gyfer y peiriant.

Cymeradwyd y cais gan yr aelodau.

Cronfa Cymunedau Creadigol

Cyflwynodd DG y cais hwn. Mae AGW yn derbyn ymholiadau adhoc yn aml gan gymunedau ynglyn â gweithgareddau, astudiaethau a phrynu offer ayb. Mae ymholiadau hefyd yn dod drwy Swyddogion Adfywio. Wrth fod AGW yn tanwario ac angen I eraill wireddu prosiectau ar ein rhan, rydym yn cynnig creu cronfa o £100,000 gyda £10,000 ar y mwyafrif yn cael ei glustnosi I phob prosiect. Mi fuasai rhaid I pob cais a dderbynwyd gydfynd gyda egwyddorion ac ethos arloesol LEADER ac mi fydd pob cais yn cael ei wyntyllu gan is-grwp. Bydd gofyn i grwpiau fynychu gweithdy arloesi cyn cyflwyno cais. Bydd y rhain yn annog mynychwyr i ddiffinio'r broblem y maent yn ceisio ei datrys, a holi sut orau i ymateb. Bydd y gweithdai hyn yn agored i bawb a'r nod yw creu cronfa o arloeswyr cymunedol ar draws Gwynedd. Rhedwyd gweithdai tebyg i aelodau'r GGLI yn 2016 gan Satori LAB.

Dyweddodd Lyndsey fod yna bwysau ar gymunedau a cynghorau cymunedol I gymryd gwasanethau ymlaen sydd yn cael eu rhyddhau gan y Cyngor. Un enghraifft yw toiledau cyhoeddus lle mae nifer yn ddiweddar yn cael eu cynnig I gymunedau neu mae nhw'n cau. Dywedodd Lyndsey y byddai model yn ddefnyddiol I weld beth fyddai't modd gorau I'r gymuned greu incwm ohono. E.e dewis 3 toiled cyhoeddus, un mewn man gwleig, un mewn man trefol ac un arall sydd yn boblogaodd gyda twristiaeth gan beilota ffurfiau gwahanol o godi arian unai mewn system technnegol drwy app ffôn neu periaint talu ar y drws.

Cost y prosiect yw £110,000 tuag at gronfa, £100,000 tuag at y gronfa a £10,000 tuag at y gweithdai.



	<p>*Cymeradwyd y cais gan yr aelodau.*</p> <p><u>Cylchdaith Carneddau</u></p> <p>Dyma gais sydd wedi drwy'r Parc Cenedlaethol ac sydd yn gyd-weithredol gyda Conwy a fydd yn arwain ar y prosiect. Eglurodd KHE mai astudiaeth dichonoldeb ydyw ar gyfer llwybrau o amgylch y Carneddau, sut I gysylltu â chymunedau lleol gyda'r llwybrau cerdded. Nôd y cais yw I ddatblygu cynudlleidfa, hyrwyddo yr ardal ac adolygu y rhwydwaith. Un amod yw y bydd rhaid derbyn 3 pris am y gwaith cyn symud ymlaen. *Cynigiodd EY y byddai angen i'r person sydd yn gwneud y gwaith gerded y llwybrau er mwyn deall yr ardal ar gyfer budd yr astudiaeth*.</p> <p>Cost y cais yw £10,000.</p> <p>*Cymeradwyd y cais gan yr aelodau.*</p>	
Dyddiad Nesaf		
	<p>Dyddiad cyfarfod Ebrill 25ain yng Nghlwb Peldroed Porthmadog am 1.00pm</p>	

